



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Adroddiad ar weithgareddau 2014-15

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Bryn Menai, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2JA
Ffôn: 01248 371839
Ebost: swyddfa@cyfieithwycymru.org.uk
Gwefan: www.cyfieithwycymru.org.uk

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2014 - 15

Cyflwyniad

Prif nod y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn oedd parhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr, trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, a datblygu 'Balchder Crefft', ein Cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrff a sefydliadau eraill y tu mewn i'r byd cyfieithu a thu hwnt;
- hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau.

Yn 2014-15 parhaodd Comisiynydd y Gymraeg i ariannu gweithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas. Mae'r Comisiynydd yn gwneud hyn ar sail cynllun busnes 3-blynedd, hyd at 31 Mawrth 2016.

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o weithgareddau 2014-15; crynodeb o'r sefyllfa ariannol; a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu'r Gymdeithas.



Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad hwn ar waith Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn 2014-15. Mae'n rhyfeddol meddwl ein bod yn gallu cyflawni cymaint o waith gwerthfawr a phwysig ar gyn lleied o adnoddau, yn rhai dynol ac ariannol.

Er bod swm y grant a gawn gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi lleihau'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, llwyddwyd i barhau'r gwaith o ddarparu arholiadau a gweithdai – sef gwir ddiben y Gymdeithas, wrth gwrs. Roedd canlyniadau'r gwahanol arholiadau'n galonogol ar y cyfan, a nifer yr ymgeiswyr hefyd yn dderbyniol.

Mae ein perthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn un hynod o bwysig, ac un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Gymdeithas a'r Coleg. Gwnaed llawer iawn o waith yn creu a pharhau cysylltiadau â'r gwahanol gyrff yng Nghymru sy'n ymwneud â'r proffesiwn cyfieithu, ac â chymdeithasau cyfieithwyr y tu allan i Gymru hefyd. Ni all hynny ond bod yn fuddiol i ddyfodol y Gymdeithas. Hir y parhaed hynny.

Unwaith eto roedd cefnogaeth yr aelodau i'r Gymdeithas mor gadarn ag erioed. Ni welsom leihad arwyddocaol yn nifer yr aelodau, arwydd clir fod y rhan fwyaf o gyfieithwyr yn gweld gwerth y Gymdeithas iddyn nhw fel aelodau. Fel Cyfarwyddwyr a staff roeddem yn gwerthfawrogi'r ffyddlondeb hwnnw'n fawr iawn.

Mae staff y Swyddfa wedi gwneud gwaith rhagorol unwaith eto, a hyn yn sicr sydd wedi bod yn gyfrifol fod y Gymdeithas wedi parhau i lwyddo er gwaethaf ansicrwydd.

Penderfynodd Judith Kaufmann adael ei swydd fel Rheolwr Datblygiad Proffesiynol ym mis Mai eleni ar ôl bron i chwe mlynedd o wasanaeth ffyddlon. Mae ein diolch yn fawr iawn iddi, a dymunwn yn dda iddi yn ei maes newydd.

Collwyd Dewi Morris Jones yn ystod y flwyddyn ar ôl salwch hir. Bu Dewi yn aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ers 2003, a chyn hynny yn Drysorydd y Gymdeithas am gyfnod. Byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr iawn.

Erbyn y flwyddyn nesaf bydd grant Comisiynydd y Gymraeg wedi dod i ben, felly, mae'r pwyslais eleni wedi bod ar geisio dod o hyd i ffynhonnell wahanol o arian er mwyn i'r Gymdeithas allu parhau i gyflogi staff y Swyddfa ym Mangor a chynnal rhaglen lawn o weithgareddau a fydd yn datblygu safonau cyfieithu proffesiynol. Mae cymorth grant yn angenrheidiol os ydym i barhau i wneud hyn a chyfrannu'n gadarnhaol at isadeiledd y Gymraeg.

Mary Jones, Cadeirydd



1. Aelodaeth y Gymdeithas

Aelodau unigol

Ar 31 Mawrth 2015, roedd gan y Gymdeithas 357 o aelodau (o'u cymharu â 348 ar 31 Mawrth 2014), fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn - 200

Aelodau Sylfaenol - 141

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd - 72 (16) *

* Y ffigur rhwng cromfachau yw nifer yr aelodau sy'n aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n aelodau Cyflawn (43) ynteu'n aelodau Sylfaenol (13) hefyd.

Bu cynnydd eto yn nifer yr aelodau Cyflawn. Dyma'r nifer mwyaf o aelodau Cyflawn yn hanes y Gymdeithas, ac ni fu nifer yr aelodau Cyflawn gymaint yn uwch na nifer yr aelodau Sylfaenol erioed o'r blaen.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod ohoni. Mae dwy lefel o aelodaeth i gyfieithwyr testun – Cyflawn a Sylfaenol – ac un lefel o aelodaeth i gyfieithwyr ar y pryd.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill, ac mae gennym drefn gadarn a theg ar gyfer atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu eu tâl aelodaeth.

Ymddygiad proffesiynol

Mae holl aelodau'r Gymdeithas yn ymrwmo i ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol wrth dalu eu tâl aelodaeth. Ynghlwm wrth hynny, mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braff dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd y Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

Cydnabyddiaeth i eraill

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod cwmnïau cyfieithu trwy Aelodaeth Gorfforaethol (8 cwmni). Cynigir cydnabyddiaeth fel Sefydliad Cyswllt i sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector sy'n bodloni'r meini prawf.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd y categori Myfyriwr Cyswllt. Y bwriad yw annog a chefnogi myfyrwyr sydd â'u bryd ar ddilyn gyrfa fel cyfieithwyr. Nid yw bod yn Fyfyriwr Cyswllt yn golygu aelodaeth o'r Gymdeithas.



2. Cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Arholiadau Aelodaeth Testun

Cynhaliwyd **Arholiadau Aelodaeth Testun** ym mis Mai 2014 ar y lefel Cyflawn yn unig, ac ym mis Hydref 2014 ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol. Fe'u cynhaliwyd yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Dyma ystadegau'r arholiadau:

	Mai 2014		Hydref 2014	
Cyfanswm yr holl ymgeiswyr *	18		18	
	Ymgeiswyr	Llwyddo	Ymgeiswyr	Llwyddo
Cyflawn *	18	5	19	5
Papur 1 - i'r Gymraeg	16	4	18	5
Papur 2 - i'r Saesneg	6	1	5	0
Sylfaenol *	-	-	41	21
Papur 1 - i'r Gymraeg	-	-	41	16
Papur 2 - i'r Saesneg	-	-	8	5

* Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur

Roedd yn galonogol unwaith eto gweld cynifer yn sefyll yr **arholiadau Cyflawn**. Dangosai hynny awydd cynyddol ymhlith cyfieithwyr i gyrraedd safon wirioneddol broffesiynol yn eu gwaith. Mae hefyd yn arwydd o ymdrechion y Gymdeithas i fynnu mai Aelodau Cyflawn ddylai gael eu defnyddio gan gyrff a sefydliadau.

Er mai 9 yn unig o'r ymgeiswyr i'r Gymraeg a lwyddodd yn yr arholiadau Cyflawn, da nodi bod mwyafrif o'r gweddill o fewn cyrraedd i lwyddo yn y dyfodol. Fel sy'n digwydd yn aml, cafwyd ambell enghraifft lle cafodd ymgeiswyr dipyn gwell hwyl ar y darn cyntaf na'r ail ddarn, o bosibl oherwydd nad oeddent wedi caniatáu digon o amser ar gyfer ail hanner y papur. Wrth gyflwyno gwaith o dan amodau arholiad, mae rheolaeth ar amser yn gallu bod yn elfen bwysig dros ben. Felly, anogir ymgeiswyr i rannu eu hamser yn fanwl ar y cychwyn, gan gofio sicrhau bod llawn cymaint o amser wedi'i neilltuo ar gyfer prawf-ddarllen ag ar gyfer y cyfieithu ei hun. Gwelwyd mwy o wallau cystrawen nag y byddid wedi eu disgwyl yng ngwaith yr ymgeiswyr, a diffyg ymwybyddiaeth o batrymau'r Gymraeg, diffygion na ellir eu maddau ar y lefel hon. Anogir ymgeiswyr i ddarllen Cymraeg safonol bob cyfle a gânt ac i fynd ati i geisio gloywi eu sgiliau ieithyddol, nid yn unig wrth gyfieithu, ond hefyd wrth ddarllen a golygu eu gwaith, gan fod rhaid gallu cyflawni'r ddwy dasg yn llwyddiannus i lwyddo ar y lefel hon.

Dim ond 1 ymgeisydd oedd yn cyrraedd y safon yn yr arholiadau i'r Saesneg, a siom fawr yw gweld canran mor isel yn llwyddo yn yr arholiadau hyn unwaith yn rhagor. Mae'r Saesneg, yn naturiol, yn iaith fyd-eang sy'n cael ei siarad a'i defnyddio ar nifer helaeth o wahanol lefelau, ac fe all fod yn anodd osgoi dod i gysylltiad ag enghreifftiau gwael ohoni. Efallai bod hynny'n egluro, i ryw raddau, pam mae ymgeiswyr yn cael y fath drafferth i lunio cyfieithiadau Saesneg sy'n llifo'n naturiol ac yn argyhoeddi. Ni ellir llwyddo mewn arholiad ar y lefel hon heb feistrolïr grefft o drosi testunau i Saesneg mwy graenus, sy'n argyhoeddi'r darllenydd. Mae angen i ymgeiswyr ymgyfarwyddo'n fwy â phatrymau Saesneg safonol, gwella'u gfael ar y Saesneg, a meistrolïr



grefft o gyfleu ystyr y gwreiddiol mewn cystrawennau Saesneg naturiol. Mae hyn yr un mor wir yn achos y Gymraeg hefyd.

Mae'n siŵr mai'r ffaith mai dim ond unwaith yn ystod y flwyddyn y cynhaliwyd **arholiadau Sylfaenol** oedd i'w gyfri am y nifer uwch na'r arfer a safodd yr arholiadau.

Yn yr arholiad i'r Gymraeg, braf oedd gweld nid yn unig nifer sylweddol o ymgeiswyr yn sefyll yr arholiad, ond hefyd bod cyfran eitha boddhaol (39%) ohonynt yn llwyddo, yn enwedig gan fod elfennau addawol i'w gweld yng ngwaith y mwyafrif. Y gobaith, felly, yw fod yma gronfa o ddarpar gyfieithwyr a fydd yn medru llwyddo yn yr arholiad hwn ar ôl iddynt gael mwy o brofiad. Roedd y ddau ddarn a osodwyd, er eu bod yn cynnwys digon o elfennau heriol i fod yn addas ar gyfer arholiad, yn fwriadol yn ceisio sicrhau bod cynnwys y prawf o fewn profiad y rhan fwyaf o gyfieithwyr ar y lefel hon.

Yn yr arholiad i'r Saesneg, braf yw nodi bod dros hanner yr ymgeiswyr wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol i lwyddo ar y lefel Sylfaenol, ond serch hynny boddhaol yn unig yw'r gwaith a gyflwynwyd ganddynt.

Er bod cryn nifer wedi llwyddo yn yr arholiadau Sylfaenol, ni chafodd neb ragoriaeth trwy sicrhau gradd 1 ar draws pob un o'r pedair elfen, yn bennaf oherwydd cyfieithu llac a niwlog, ac mae hynny'n destun siom. Cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir yw'r nod, a gwneud hynny mewn Cymraeg/Saesneg graenus, naturiol. O ganolbwyntio mwy ar yr agwedd honno, gallai nifer o'r rhai na fuont yn llwyddiannus lwyddo ar y lefel hon yn y dyfodol agos. Fel yn achos yr arholiadau Cyflawn, dylai ymgeiswyr ar y lefel Sylfaenol hefyd brawf ddarllen eu gwaith a'i wirio'n fanwl yn erbyn y gwreiddiol cyn ei gyflwyno.

Nid oedd neb yn deilwng o **Wobr Goffa Wil Petherbridge** yn 2014. Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge – er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru – i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, os bernir bod teilyngdod.

Y Prawf CAP

Cynhaliwyd dau **Brawf CAP** yn ystod y flwyddyn, ym mis Medi 2014 ac ym mis Chwefror 2015. Fe'u cynhaliwyd yn y stiwdios sain proffesiynol arferol: CTV, Caerdydd a Stiwdio Aran, Groeslon, ger Caernarfon.

Cafwyd 6 ymgeisydd ym Mhrawf CAP mis Medi 2014, a llwyddodd 2 ohonynt. Ym Mhrawf CAP mis Chwefror 2015 llwyddodd 1 o'r 2 ymgeisydd.

Roedd y safon yn gyson â'r hyn a welwyd yn y Profion CAP a gynhaliwyd dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Roedd bwlch mawr rhwng yr ymgeiswyr cryfaf a'r rhai gwannaf, a chafwyd yr argraff, unwaith eto, bod y rhai sy'n ymgeisio yn gymharol newydd i'r maes. Gwelwyd hefyd y patrwm cyffredin lle'r oedd ymgeiswyr yn llawer mwy cyfforddus a hyderus gydag un darn o'i gymharu â'r llall, gan awgrymu eu bod yn fwy cyfarwydd â meysydd trafod penodol. Yn hyn o beth, byddai'r ymgeiswyr yn elwa o fagu profiad mewn meysydd ehangach.



Roedd y goreuon yn cyfieithu'n gywir ac yn raenus, yn defnyddio Saesneg rhywiog a naturiol ac idiomau cynhenid, ac yn cyfleu'r ystyr yn gelfydd. Cafwyd enghreifftiau da o amrywio tŷn y llais a phwyslais priodol i efelychu'r gwreiddiol.

Y prif wendidau oedd ansicrwydd ynghylch cystrawen a chywair ac idiom. Clywyd cyfieithu llythrennol, cystrawennu lletchwith ac annaturiol, defnyddio Saesneg anidiomatig ac idiomau amhriodol. Cafwyd enghreifftiau o ddefnyddio geirfa anaddas neu anghywir, ymbalfalu am rai geiriau sylfaenol, a methu geiriau a oedd wedi'u cynnwys yn y wybodaeth a gafodd yr ymgeiswyr am y darnau prawf (sy'n awgrymu na fanteisiwyd i'r eithaf ar y chwarter awr cyn y prawf i ddarllen y wybodaeth hon yn drylwyr). Mae hyn oll yn pwysleisio bod angen i ymgeiswyr wrando ar Saesneg o safon.

Mater o dristwch i ni yw nodi marwolaeth sydyn ac anhymig John Cross, perchennog CTV, Caerdydd, ddechrau mis Mawrth 2015. Cafodd staff y Gymdeithas ac ymgeiswyr y Prawf CAP bob cymorth a chroeso gan John dros nifer o flynyddoedd yn ei stiwdio, ac roedd ef yn falch o ddarparu'r adnoddau a'r cyfleusterau i ni ar bob achlysur. Cydymdeimlwn yn fawr â theulu John ac â'i gydweithwyr yn CTV.

3. Hybu datblygiad proffesiynol

Unwaith yn rhagor, trefnwyd rhaglen amrywiol o weithgareddau i hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr a darpar gyfieithwyr, a oedd yn cynnwys cynhadledd, gweithdai, yr e-weithdy cyfieithu a'r Ymarfer CAP. Mae nifer fawr o gyfieithwyr yn ystyried bod y cyfleoedd datblygiad proffesiynol a hyfforddiant rheolaidd a gynigir gan y Gymdeithas yn hynod o werthfawr ac yn un o gryfderau'r Gymdeithas.

Elwodd 133 o unigolion o'r gweithgareddau hyn a chofrestrodd 193. Roedd 63 o'r unigolion hyn yn aelodau o'r Gymdeithas. O'r gweddill, roedd y mwyafrif yn gweithio fel cyfieithwyr i lywodraeth ganolog, i awdurdodau lleol, y sector addysg neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae hynny'n arwydd fod y sefydliadau hynny'n gweld gwerth yn y ddarpariaeth arbennig a phwysig hon gan y Gymdeithas er mwyn hwyluso datblygiad proffesiynol eu staff. Y cam nesaf fydd annog y cyfieithwyr hynny i ymaelodi yn y Gymdeithas.

Trefnwyd 8 **gweithdy wyneb-yn-wyneb** yn ystod y flwyddyn. Gan ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ers sawl blwyddyn, cynhaliwyd y rhan fwyaf ohonynt mewn mwy nag un lleoliad ar hyd a lled Cymru (gan gynnwys Bangor, Caernarfon, Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd), er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib i gyfieithwyr ym mhob rhan o Gymru. Roedd pynciau'r gweithdai'n cynnwys: Datblygiad a defnyddio cyfieithu peirianyddol (tiwtoriaid: Terence Lewis MITI a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru), Ymchwilio a defnyddio adnoddau (tiwtor: Mari Lisa Davies), Cyfieithu Deddfwriaethol (tiwtoriaid: Richard Crowe a Manon George), Deall y Saesneg wrth gyfieithu i'r Gymraeg (tiwtor: Sylvia Prys Jones), Golygu a gwirio cyfieithiadau (tiwtor: Marian Beech Hughes).

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, cymerwyd saib i adolygu'r agwedd hon ar ein gwaith ar ôl pedair blynedd lwyddiannus o gynnig gweithdai, a oedd, ar y cyfan, yn rhai digon anffurfiol.



Y bwriad oedd canolbwyntio ar rôl y tiwtor a chynnig **hyfforddiant i'r hyfforddwyr** er mwyn rhoi mwy o arweiniad iddynt hwy ar gyflwyno gweithdai a chyrsiau, yn ogystal â llunio canllawiau ymarferol i diwtoriaid ynghylch cynnal gweithdai. Amcan hyn fyddai cryfhau ymhellach yr hyfforddiant yr oedd y Gymdeithas yn ei gynnig trwy roi hyfforddiant arbenigol i griw bychan o gyfieithwyr i'w helpu i ddatblygu'r agwedd hon ar eu gyrfaoedd. Gwnaed hyn gyda chymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a WEA Cymru. Cynhaliwyd sesiwn undydd gydag Eifion Lloyd Jones yn Aberystwyth ym mis Mehefin 2014 i drafod rhai hanfodion dysgu, ac yna bu cwrs penwythnos 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' gyda WEA Cymru yn Llandinam ym mis Tachwedd 2014. Roedd hwnnw'n arwain at gymhwyster City & Guilds lefel 2. Mae'r ymateb i'r ddau gwrs yn dangos bod ein tiwtoriaid yn awyddus i wella'r hyn y gallant ei gynnig i gyfieithwyr, a byddwn yn parhau i roi cymorth iddynt. Lluniwyd canllawiau dosbarth i diwtoriaid y Gymdeithas i'w helpu i strwythuro a chynllunio'u gwersi. Bwriad hyn oll oedd cysoni safon ein gweithdai a rhoi cefnogaeth a hyder i diwtoriaid yn eu gwaith, a hynny yn ei dro yn cryfhau a gwella'r agwedd bwysig hon ar waith y Gymdeithas.

Parhaodd poblogrwydd **yr e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur. Cynigir yr e-weithdy cyfieithu ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol ar wahân. Yn yr e-weithdy cyfieithu bydd y dysgwyr yn cyfieithu 2 ddarn o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol, ac yn cael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtoriaid sy'n gyfieithwyr profiadol ac yn farcwyr arholiadau'r Gymdeithas. Cynhaliwyd 10 e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn (6 ar y lefel Sylfaenol a 4 ar y lefel Cyflawn) a chymerodd 81 ran ynddynt.

Cynllun tebyg ym maes cyfieithu ar y pryd yw'r **Ymarfer CAP**, lle mae rhywun yn cael y cyfle i gyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon ag a geir yn y Prawf CAP, a hynny yn y stiwdios lle cynhelir y Prawf CAP. Mae'n gyfle iddynt ymgysgu â threfniadau a gofynion y Prawf CAP, a chael sylwadau ar eu cyfieithu gan diwtoriaid sydd, fel yn achos yr e-weithdy cyfieithu, yn gyfieithwyr ar y pryd profiadol ac yn aseswyr Prawf CAP y Gymdeithas. Cymerodd 7 o bobl ran yn y cynllun hwn.

Lluniwyd dau bapur a fydd yn werthfawr i'n haelodau, sef canllaw i ddatblygu busnes gan Cynan Jones, ac arweiniad i dechnoleg gan Terence Lewis.

Ar ddechrau'r flwyddyn roeddem wedi llunio drafft cyntaf o'r **cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP)**. Y cam cyntaf oedd ymgynghori â'r aelodau, a chafwyd ymateb cryf o blaid y syniad ac yn ei erbyn. Y cam nesaf oedd cyflwyno'r cynllun i'r aelodau ym mis Medi 2014, ei enwi'n 'Balchder Crefft', a chychwyn ar gynllun peilot hyd at fis Mawrth 2016. Bwriad y cynllun yw rhoi arweiniad ac anogaeth i'r aelodau wrth iddynt ystyried eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gwahoddwyd trawstoriad o'r aelodau i roi cynnig ar ddilyn y cynllun DPP fel rhan o'r cynllun peilot ac i gofnodi eu gweithgarwch DPP eu hunain. Gobeithiwn y bydd yr ymarferiad hwn yn fodd o fireinio'r cynllun a'r gweithgarwch, ac y gallwn ddefnyddio rhai o'r profiadau i roi arweiniad i aelodau eraill a'i gryfhau. Bwriadwn greu adran gaedig a phreifat i bob aelod unigol ar ein gwefan newydd, lle gallant gofnodi eu gweithgareddau DPP.

Ym mis Medi 2014 roedd 20 yn bresennol yn y **Diwrnod i'r Aelodau** a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Elephant and Castle, Y Drenewydd. Bwriad y Diwrnod i Aelodau oedd rhoi cyfle i'r aelodau gyd-gyfarfod mewn awyrgylch llai ffurfiol, a chael cyfle i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin. Yn ystod y diwrnod trafodwyd sefyllfa'r Gymdeithas a'i dyfodol, buddion a gwasanaethau i aelodau, a chyflwynwyd y cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus newydd i aelodau.



Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal Diwrnod i'r Aelodau, a'r bwriad yw iddo fod yn ddigwyddiad blynyddol a fydd yn cyd-daro â Diwrnod Rhyngwladol Cyfieithu a ddethlir ar 30 Medi.

4. Cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas agos â'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**. Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Gymdeithas a'r Coleg mewn digwyddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr.

Bu'r Gymdeithas yn gefnogol iawn i ymdrechion y Coleg i ddatblygu cynllun cenedlaethol ym maes cyfieithu a fyddai'n ymateb i anghenion y proffesiwn cyfieithu. Mae'r Gymdeithas yn falch gallu cydweithio â'r Coleg wrth iddo geisio gwreiddu hyn. Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r Bwrdd Prosiect Astudiaethau Cyfieithu a fu'n cyfarfod yn rheolaidd tan yr haf 2014. Disodlwyd y Bwrdd gan y Consortiwm Astudiaethau Cyfieithu ym mis Medi 2014, ac mae'r Prif Weithredwr yn aelod o hwnnw.

Yn ystod y flwyddyn bu Comisiynydd y Gymraeg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Gymdeithas yn cyfarfod i rannu gwybodaeth ac i drafod materion o ddiddordeb cyffredinol i'r tri chorff.

Parhaodd y Gymdeithas i roi ei chefnogaeth ymarferol i'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd ym **Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**, cymhwyster y bu'n bartner allweddol yn ei sefydlu. Unwaith eto, cyflwynodd Judith Kaufmann ddarlith fel rhan o'r cwrs. Hwn yw'r unig gymhwyster a gaiff ei gynnig mewn cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg, ac mae'n gyfle i ennill cymhwyster academaidd sy'n bodloni anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu.

Er i gefnogaeth ariannol y Gymdeithas tuag at PhD Dawn Wooldridge ym **Mhrifysgol Bangor** ddod i ben ddiwedd 2013, parhawyd i roi cymorth iddi wrth iddi lunio'i thraethawd ymchwil, 'Proffilio gwallau: astudiaeth o sut mae darpar gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn cyfieithu'. Roedd y PhD yn rhan o'r cynllun KESS a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Parhaodd y Gymdeithas i gynnal gwefan y prosiect 'Diwylliannau cyfieithu: Rhwydwaith ymchwil cyfieithu', prosiect y cawsai Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Bangor grant ar ei gyfer gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (yr AHRC).

Mynegodd y Gymdeithas ei chefnogaeth i fwriad **Prifysgol Aberystwyth** i greu MA mewn Cymraeg Proffesiynol, ac yn benodol, cyflwynodd sylwadau ar gynnwys y modiwl Cyfieithu a fydd yn rhan o'r radd newydd hon.

Un o dargedau'r grant gweithgareddau rheoleiddio a gafwyd gan y Comisiynydd oedd llunio adroddiad ynghylch **cymwysterau academaidd ac aelodaeth o'r Gymdeithas**. Pan drafodwyd y mater ym Mwrdd y Cyfarwyddwyr, ni welwyd bod sail dros newid dim ar safbwynt y Gymdeithas ar y mater hwn, sef bod cyrsiau cyfieithu ar unrhyw lefel yn gam pwysig ar hyd y llwybr tuag at ennill statws proffesiynol, ac y byddai cymhwyster academaidd yn dangos gallu sylfaenol ac addasrwydd i fynd ymlaen i fod yn gyfieithydd proffesiynol.



Nid ydym o'r farn y dylai llwyddo mewn cwrs academaidd arwain yn uniongyrchol at aelodaeth o'r Gymdeithas. Ystyriwn fod aelodaeth o gymdeithas broffesiynol yn farc safon, nid yn hanfod neu'n gymhwyster angenrheidiol.

5. Cynnal cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau

Parhaodd y gwaith o gynrychioli'r Gymdeithas ar sawl pwyllgor, yn eu plith Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg (grŵp y mae Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei gydlynw a'i weinyddu), Bwrdd Prosiect Rhannu Adnoddau Cyfieithu Llywodraeth Cymru (a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014), Rhwydiaith (gweithgor swyddogion y Gymraeg yn y sector cyhoeddus a gaiff ei drefnu a'i gynnal gan WLGA), a grŵp llywio Prosiect Trawsffiniol Mentrau Iaith y Gogledd (prosiect y mae Cynllun Cyfieithu Cymunedol yn rhan ohono ac a gaiff ei ariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig).

Cydweithiodd y Gymdeithas â sawl sefydliad cyhoeddus er lles a datblygiad y proffesiwn, gan gynnwys Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, a nifer o sefydliadau cyhoeddus eraill.

Ym mis Chwefror 2014 roedd y Prif Weithredwr yn un o'r siaradwyr wrth lansio adnodd cyfieithu peirianyddol newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddatblygwyd ar y cyd â Microsoft. Gwahoddwyd ef wedyn gan y Cynulliad i fod yn aelod o banel yn trafod yr iaith mewn oes ddigidol, dan gadeiryddiaeth Rhodri Glyn Thomas AC yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr.

Yn yr Eisteddfod honno hefyd lansiwyd y cynnig i gyfieithu am bris gostyngol i aelodau o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas, wedi ehangu'r cynnig cyfieithu i'w aelodau, i gynnwys llawer mwy o gyfieithwyr y Gymdeithas ac i sicrhau fod y cynnig ar gael ym mhob cwr o Gymru.

Ar anogaeth y Gymdeithas, a chyda'n cydweithrediad, sefydlwyd cystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd. Bu cystadlu ynddi am y tro cyntaf yn 2015.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Mantell Gwynedd, a'r Sefydliad Materion Cymreig.

Ymatebodd y Gymdeithas i ymgynghoriadau Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru i'r Safonau ac i'r Rheoliadau. Canolbwyntiodd yr ymatebion ar y safonau hynny a oedd yn ymwneud â chyfieithu ar y pryd.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal a datblygu ei pherthynas â chymdeithasau a chyrrff cyfieithu, yn eu plith Institute of Translators and Interpreters, y grŵp ITI Cymru/Wales, Chartered Institute of Linguists, NRPSI, ac â chyfarwyddiaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Gymdeithas yn aelod o FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators).



6. Darlith Goffa Hedley Gibbard

Roedd y gymeradwyaeth a gafodd Huw Llewelyn Davies ar ddiwedd ei ddarlith 'Cais a Throsiad - y Gymraeg ym myd y campau' yn dystiolaeth o gymaint yr oedd y gynulleidfa wedi mwynhau darlith, a oedd yn gymysgedd o anecdotau o'i gyfnod fel sylwebydd, hanes bathu termau Cymraeg ar gyfer gwahanol chwaraeon, a throsolwg o'r campau mewn llenyddiaeth Gymraeg. Cynhaliwyd Darlith Goffa Hedley Gibbard yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr.

7. Comisiynydd y Gymraeg: ariannu gweithgareddau rheoleiddio

Ym mis Awst 2013 daethpwyd i gytundeb â'r Comisiynydd ynghylch y cynllun busnes am y 3-blynedd hyd at 31 Mawrth 2016. Lluniwyd y cynllun busnes ar sail y 10 gweithgaredd rheoleiddio a restrwyd yn llythyr y Comisiynydd dyddiedig 19 Rhagfyr 2012, sef:

- Cynnal cofrestr o gyfieithwyr proffesiynol gan fynnu eu bod yn ymddwyn yn ôl cod ymddygiad y Gymdeithas.
- Cynnal a datblygu'r lefelau aelodaeth e.e. Sylfaenol, Cyflawn, Corfforaethol, Myfyriwr, ac ati.
- Ymchwilio i gwynion yn erbyn aelodau'r Gymdeithas a chymryd unrhyw gamau disgyblu a allai ddeillio o hynny, gan gynnwys diarddeliad.
- Sicrhau cydnabyddiaeth gyffredinol i gyfieithwyr cymwysedig, yn enwedig ymysg y cyrff hynny y bydd gofyn iddynt gydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Marchnata a chynrychioli'r proffesiwn.
- Darparu cyngor ynghylch cyrsiau cyfieithu a ddarperir gan sefydliadau addysgiadol.
- Cydweithio â sefydliadau addysgiadol i sefydlu cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus i adlewyrchu ymroddiad at godi safonau.
- Monitro cydymffurfiaid aelodau â chynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus gorfodol.
- Cynorthwyo aelodau i ddatblygu eu busnesau.
- Cynghori Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â materion yn ymwneud ag ansawdd cyfieithu.

Roedd y cynllun busnes hefyd yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod y Comisiynydd wedi rhoi gwybod nad oedd cynlluniau ganddi i ariannu'r Gymdeithas o 31 Mawrth 2016 ymlaen, ac y dylai'r cynllun busnes ddangos sut y bydd y Gymdeithas yn hunangynhaliol wedi hynny.

Mae'r Comisiynydd yn ariannu gweithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas ar sail targedau penodol a mesuradwy. Cynhelir adolygiad chwarterol o gyflawniad, a dim ond ar sail dangos cynnydd derbyniol bob chwarter yr awdurdodir y taliadau chwarterol.

Un o dargedau'r grant gweithgareddau rheoleiddio oedd llunio papur yn "ystyried strwythur y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod strwythur priodol mewn lle er mwyn galluogi'r Gymdeithas i fod yn gorff rheoleiddio ar y naill law ac yn gymdeithas sy'n cynrychioli ei haelodau ar y llall".



Dyna oedd gobaith y Comisiynydd pan gytunodd ym mis Awst 2013 i ariannu gweithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas.

Prif gasgliadau'r trafodaethau ym Mwrdd y Cyfarwyddwyr oedd nad oedd bod yn rheoleiddiwr yn ymarferol nac yn bosibl, ac na allai'r Gymdeithas fod yn hunangynhaliol wrth weithredu rhaglen waith debyg i'r rhaglen bresennol heb iddi gael grant cyhoeddus. Ni welwn ei bod hi'n bosibl gwireddu'r gobaith hwnnw'n llawn. Nid yw'r sefyllfa wedi newid dim yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i'n galluogi i fod nac yn rheoleiddiwr nac yn hunangynhaliol. Gall unrhyw un ei alw'i hun yn gyfieithydd, ac nid oes gorfodaeth ar neb i ymaelodi â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru nac ag unrhyw gymdeithas broffesiynol arall. Mae'r sefyllfa economaidd wedi gwaethygu, ac mae angen cydnabod effaith debygol ac anffodus toriadau pellach mewn gwariant cyhoeddus ar gyfieithu, ac ar y Gymdeithas yn sgil hynny.

8. Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £77,500 gan Gomisiynydd y Gymraeg tuag at weithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas (o'i gymharu â £87,359 yn 2013-14).

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, a chafwyd £46,588 (o'i gymharu â £43,084 yn 2013-14).

Roedd yr incwm a gafwyd felly'n fodd i'r Gymdeithas barhau i gyflogi 2.6 aelod o staff parhaol, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £120,368 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon.

9. Rheoli'r Gymdeithas

9.1 Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i cofrestrwyd yng Nghymru, rhif 4741023.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

David Bullock, Ann Corkett, Bethan Mair Evans, Fiona Gannon, Heini Gruffudd, Berwyn Prys Jones, Catherine Jones, [Dewi Morris Jones], Mary Jones (Cadeirydd), Lisa Pugh, Claire Richards a Lowri Roberts.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 8 Ebrill 2014, 15 Gorffennaf 2014, ac 11 Rhagfyr 2014.



9.2 Trefn arholi ac asesu'r Gymdeithas

Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth (Testun) a'r Prawf CAP.

Bwrdd Arholi Testunau / Cofrestr Marcwyr yr Arholiadau Aelodaeth Testun

Roedd y canlynol yn aelodau o Gofrestr Marcwyr yr Arholiadau Aelodaeth Testun, ac yn eu tro yn aelodau o'r Bwrdd Arholi Testunau pan oeddynt yn marcio:

Meg Elis (Dirprwy Arholwr), Mary Jones (Dirprwy Arholwr), Meinir McDonald (Dirprwy Arholwr), Catrin Beard, Ann Corkett, Mari Lisa Davies, Heini Gruffudd, Berwyn Prys Jones, [Dewi Morris Jones], Lindsey Jones, Sylvia Prys Jones, Glenys Roberts, Catrin Small, Megan Hughes Tomos, Tegwen Williams, Gareth Wood, Menna Wyn.

Y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd / Cofrestr Aseswyr CAP

Roedd y canlynol yn aelodau o Gofrestr Aseswyr y Prawf CAP, ac yn eu tro yn aelodau o'r Bwrdd CAP pan oeddynt yn asesu:

Delyth Davies, Lynwen Davies, Siôn Edwards, Rhys George, Catrin Howells Lloyd, Hywel G. Hughes, Rhian Huws, Aled M. Jones, Siân Eleri Jones, Ann Llwyd, Siôn Aled Owen, Mair Parry-Jones ac Angharad Watson.

9.3 Y Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol

Aelodau'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol yn ystod y flwyddyn oedd:

David Bullock (Cadeirydd), Delyth Davies, Fiona Gannon, Berwyn Prys Jones, Claire Richards a Lowri Roberts.

10. Gair i gloi gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Hoffwn ddiolch i Nia Wyn Jones a Judith Kaufmann am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r Gymdeithas. Wrth wneud hynny, hoffwn dymuno'n dda i Judith wrth iddi gychwyn ar bennod newydd yn ei hanes.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr iawn y gefnogaeth gyson a gefais gan Mary Jones, Cadeirydd y Gymdeithas. Diolch iddi hi ac i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd. Collwyd un o'u plith ym marwolaeth Dewi Morris Jones, un o'n haelodau cynharaf ac un a fu'n gefn cadarn i'r Gymdeithas.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r aelodau hynny sy'n gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill, yn arholwyr a marcwyr arholiadau, yn diwtoriaid gweithdai, ac yn aelodau o bwyllgorau eraill. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

